Shared **Regulatory** Services
Gwasanaethau **Rheoliadol** a Rennir

Diogelwch a Safonau Bwyd

# Polisi Cydymffurfio a Gorfodi

# Atodiad 2: Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid

## 1. Cyflwyniad

1.1 Fel rhan o'r Rhaglen Cyflawni Bwyd Anifeiliaid diwygiedig a sefydlwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn gwneud gwaith gorfodi Bwyd Anifeiliaid ar ran y tri awdurdod lleol hyn sy'n awdurdodau bwyd anifeiliaid dan Ddeddf Amaeth 1970.

Mae bwyd anifeiliaid yn rhan allweddol o'r gadwyn fwyd ac felly mae'n effeithio ar ddiogelwch a safon y cynnyrch anifeiliaid (cig, wyau a llaeth) y mae pobl yn ei fwyta. Mae gan y Gwasanaeth gyfrifoldeb dros orfodi rheolau ar fwyd anifeiliaid mewn cysylltiad â'u hylendid, cynhwysion a marchnata.

Diben y ddogfen hon yw nodi ein dull gorfodi yn y maes hwn. Mae ein dull yn seiliedig ar yr egwyddorion a fanylir arnynt yn y Polisi Cydymffurfio a Gorfodi GRhR cyffredinol. Mae'r ddogfen yn destun cymeradwyaeth gan y Cydbwyllgor.

## 2. Diben

2.1 Mae'r weithdrefn yn sefydlu dull unffurf ar gyfer gorfodi'r gyfraith sy'n gysylltiedig â bwyd anifeiliaid. Mae'n rhaid ei darllen ar y cyd â'r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi GRhR cyffredinol y mae'r weithdrefn hon yn Atodiad iddi.

2.2 Nod yr atodiad yw cynorthwyo swyddogion i wneud penderfyniadau gorfodi sy'n diogelu'r cyhoedd, da byw a'r amgylchedd yn ddigonol a hefyd yn ystyried anghenion a hawliau busnesau.

## 3. Cwmpas

3.1 Mae'r atodiad yn berthnasol i bob cam gweithredu y mae Swyddogion GRhR yn ei gymryd ynghylch bwyd anifeiliaid boed hynny oherwydd gofynion rheoliadau'r DU neu'r UE.

# 4. Diffiniadau

4.1 At ddiben y ddogfen hon ystyr "Swyddog Awdurdodedig" yw Swyddog sydd wedi'i ddirprwyo â phwerau i weithredu o dan y ddeddfwriaeth briodol a ddeddfwyd i fodloni Rheoliadau (EC) Rhif 183/2005 sy'n gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid, (EC) Rhif 1831/2003 ar ychwanegion ar gyfer maeth anifeiliaid, (EC) Rhif 767/2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio a (EC) Rhif 852/2004 rheoliadau hylendid bwyd, (EC) Rhif 178/2002 ar egwyddorion cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid ac mae'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016;
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplo a.y.b. a Gorfodi) (Cymru) 2016;
- Rheoliadau Rheoli Bwyd Anifeiliaid a Bwyd Swyddogol (Cymru) (Diwygiad) 2011;
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

ac mae'r swyddog hwnnw wedi'i awdurdodi gan Bennaeth Gwasanaeth GRhR.

# 5. Ymateb i dorri rheoliadau

5.1 Mae'r GRhR yn cydnabod ac yn cadarnhau pwysigrwydd sicrhau a chynnal cysondeb dull o ran gwneud pob penderfyniad sy'n berthnasol i orfodi cyfraith bwyd anifeiliaid. Er mwyn sicrhau cysondeb a chynnal cysondeb, mae angen bod canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, gan gynnwys yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) https://smartercommunications.food.gov.uk/connect/cGLgL9IfVC yn cael eu dilyn ynghyd ag unrhyw ganllawiau perthnasol eraill gan gynnwys Cod yr UE ar arfer labelu da ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes, ystyriaethau'r Awdurdod Cartref / Prif Awdurdod ac unrhyw Godau Diwydiant / Cymdeithas Masnach fel y bo'n briodol.

5.2 Gall Swyddogion Awdurdodedig y GRhR gael, rhoi a chyfnewid gwybodaeth a thystiolaeth yn unol â chyflawni'r gofynion cyfreithiol sydd arnynt dan y rheoliadau a'r canllaw perthnasol. Bydd trefniadau Prif Awdurdod bob amser yn cael eu cydnabod.

5.3 Os oes unrhyw dystiolaeth nad yw parti perthnasol yn cydymffurfio, neu yr amheuir nad yw'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, ystyrir amryw gamau gweithredu a dewisir a gweithredir y rhai mwyaf priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol bresennol: Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplo ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016; Rheoliadau Rheoli Bwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiad) 2011, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid ac unrhyw ddogfennau a chanllawiau gweithdrefnol perthnasol.

5.4 Y camau gweithredu y dylid eu hystyried yw'r rhai sydd yn adran 9.4 Polisi Cydymffurfio a Gorfodi Cyffredinol y GRhR dan y penawdau hyn:

- Hysbysiadau Statudol
- Hysbysiadau Gorfodi
- Rhybudd cyffredin; ac
- Erlyn

5.5 Yn benodol berthnasol i fwyd anifeiliaid, gellir ystyried defnyddio **hysbysiad gwella busnes bwyd anifeiliaid** dan Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005.

5.6 Bydd hysbysiad gwella busnesau bwyd anifeiliaid yn:

- Nodi sail y swyddog dros gredu nad yw gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn cydymffurfio â'r gyfraith bwyd anifeiliaid benodol;
- Nodi'r materion sy'n egluro pam nad yw gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn cydymffurfio;
- Nodi pa fesurau y mae'n rhaid i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid eu cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio, ym marn y swyddog; a
- Gofyn i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid gymryd y mesurau hynny yn y cyfnod a bennir, na fydd yn fyrrach na 14 diwrnod).

5.7 Mae peidio â chydymffurfio â hysbysiad gwella busnes bwyd anifeiliaid yn drosedd; fodd bynnag mae modd apelio yn erbyn hysbysiad ac mae hyn drwy Lys yr Ynadon. Caiff pobl sy'n derbyn hysbysiad gwella busnes bwyd anifeiliaid wybod am eu hawl i apelio.

5.8 Mae'n bosibl ystyried y camau gweithredu canlynol hefyd:

**5.8.1 Gwahardd a/neu Ddiddymu Cofrestriad Cymeradwyaeth fel Busnes Bwyd Anifeiliaid**

5.8.1.1 Gall yr awdurdod atal cofrestriad neu gymeradwyaeth sefydliad dros dro os dengys nad yw un neu ragor o'r gweithgareddau a wneir yn cydymffurfio â gofynion Rheoliad EC 183 / 2005 mwyach.

5.8.1.2 Gall unrhyw atal felly bara hyd at flwyddyn, ac yna diddymir y cofrestriad neu gymeradwyaeth.

5.8.1.3 Yn ogystal, gall yr awdurdod ddiddymu cofrestriad neu gymeradwyaeth sefydliad ar gyfer un neu ragor o'i weithgareddau os yw'n canfod diffygion difrifol neu os bu rhaid iddo atal cynhyrchu yn y sefydliad droeon ac mae gweithredwr y busnes yn dal i fethu â chynnig gwarantau priodol ynghylch cynhyrchu yn y dyfodol.

5.8.1.4 Caiff y rhai y mae'r uchod yn berthnasol iddynt wybod pa hawliau apelio sydd ar gael iddynt yn dilyn gwaharddiad neu ddiddymu eu cofrestriad fel busnes bwyd anifeiliaid.

5.8.2 **Archwilio, Cymryd a Chadw Bwyd Anifeiliaid**

5.8.2.1 Polisi GRhR yw cadw neu gymryd bwyd anifeiliaid fel bo angen os ymddengys i Swyddog Awdurdodedig nad yw'r deunydd yn cydymffurfio â gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid benodol.

5.8.2.2 Gall y Swyddog ag Awdurdod naill ai:

- Roi hysbysiad i'r person â chyfrifoldeb dros y deunydd na cheir ei ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid tan y diddymir yr hysbysiad ac na ddylid ei symud ac eithrio i le a benodir yn yr hysbysiad; neu

- Cipio'r deunydd er mwyn i Ynad Heddwch ddelio ag e a gall hwnnw orchymyn ei ddinistrio neu ei waredu a hawlio costau'r dinistrio neu waredu.

5.8.2.3 Mae unrhyw un sy'n gwrthod cydymffurfio â gofynion yr hysbysiad uchod yn wybodus, yn euog o drosedd.